


Dydd Sadwrn 8 Mehefin 7.00pm – 9.00pm
£12.00 (£8.00 consesiynau)
Theatr y Werin, Canolfan y Celfyddydau Aberystwyth
https://aberystwythartscentre.ticketsolve.com/ticketbooth/shows/1173645939

Arddangosfa a pherfformiad gan Miranda Whall yw *When Earth Speaks,* sy'n ymdrin â'r croestoriad rhwng celf a gwyddoniaeth. Deilliodd o brosiect ymchwil trawsddisgyblaethol a ariannwyd gan Gyngor Ymchwil yr Amgylchedd Naturiol: *Making the invisible visible: Instrumenting and interpreting an upland landscape for climate change resilience,* a arweiniwyd gan yr Athro Mariecia Fraser o IBERS, Prifysgol Aberystwyth, ac fe'i datblygwyd trwy brosiect ymchwil trawsddisgyblaethol dilynol a ariannwyd gan Gyngor Ymchwil yr Amgylchedd Naturiol: *Multispecies Politics in Action,* a arweiniwyd gan yr Athro Milja Kurki o adran Gwleidyddiaeth Ryngwladol Prifysgol Aberystwyth.

Mae *When Earth Speaks* yn seiliedig ar ffrwd ddata barhaus a gynhyrchir gan rwydwaith o 12 synhwyrydd yn y pridd a osodwyd ar gyfer y prosiect *Making the invisible visible*, ar wastadedd *Elenydd* , a elwir y Ffridd, tua 600m uwch lefel y môr, ym Mynyddoedd y Canolbarth.

Mae *When Earth Speaks: A Dirty Ensemble* yn berfformiad arloesol a rhyngddisgyblaethol sy'n cyfuno gwyddoniaeth, byd natur, technoleg a chelf i graffu ar gyd-gysylltiadau, a'r berthynas rhwng pobl a byd natur. Bydd perfformwyr dynol ac an-ddynol, fel y mynydd ei hun, y pridd, synwyryddion, data, cerddorion, dawnsiwr Butoh, artist celfyddydau gweledol, a roboteg yn cyd-greu profiad aml-ddimensiwn a throchol i'r perfformwyr yn ogystal â'r gynulleidfa.

Bydd y ffrwd ddata, a ddarlledir yn fyw i'r theatr o fynyddoedd y Canolbarth, yn cynnig cysylltiad ar y pryd unigryw â'r amgylchedd naturiol. Bydd y perfformiad yn esblygu ar y pryd yn ddatblygol a deinamig mewn modd nad oes modd ei ragweld wrth i'r perfformwyr ymateb i'r dirwedd, i'w gilydd, ac i amrywiadau a phatrymau'r data, newidiadau a rhythmau'r ddaear, ecosystem y pridd; y gydberthynas rhwng micro-organebau a macro-organebau, aer, dŵr, mwynau, deunydd organig, gweoedd bwyd cymhleth, cylchoedd maethol, a dolenni adborth ac ati.

Mae *When Earth Speaks* yn edrych ar gyfieithiadau rhyngsemiotig rhwng codau rhifiadol ac iaith di-eiriau; celf weledol, cerddoriaeth, a dawns, i gynnig dulliau newydd o gynrychioli a dehongli astudiaeth wyddonol amgylcheddol. Mae'n cynnig dadansoddiad amserol ynghylch sut yr ydym yn deall ac yn rheoli'r gydberthynas gymhleth rhwng byd natur, data gwyddonol, a phobl, a sut y mae pob un o elfennau'r triawd hwn yn dylanwadu ar ei gilydd. Mae'n ein hannog i ystyried y naratifau sy'n rhan annatod o gasglu, dadansoddi a chynrychioli data, naratifau sy'n aml yn gor-symleiddio ac yn homogeneiddio, a sut y mae deinameg grym, rhagfarnau ac anghydraddoldebau yn dylanwadu ar hyn.

Mae'r prosiect yn sbardun i ysgogi trafodaeth a gweithredu i sicrhau bod yr endidau dynol a'r endidau an-ddynol yn ein hecosystemau cysylltiedig yn gynaliadwy ac yn cael ystyriaeth gyfartal.

Cefnogir yr arddangosfa gan yr Asiantaeth Datblygu Celf Fyw (LADA)

Mwy o wybodaeth am y prosiect: https://www.mirandawhall.space/when-earth-speaks/

****

Saturday 8th June 7.00pm – 9.00pm
£12.00 (£8.00 consessions)
Theatr y Werin, Aberystwyth Arts Centre
https://aberystwythartscentre.ticketsolve.com/ticketbooth/shows/1173645939

*When Earth Speaks* is an exhibition and performance by artist Miranda Whall which explores the intersection between art and science. It was conceived through a NERC funded cross-disciplinary research project: *Making the invisible visible: Instrumenting and interpreting an upland landscape for climate change resilience* led by Prof Mariecia Fraser from IBERS, Aberystwyth University, and developed through a subsequent NERC funded cross disciplinary research project: *Multispecies Politics in Action* led by Prof Milja Kurki, Interpol, Aberystwyth University.

*When Earth Speaks* draws upon a continuous data stream generated by a 12-sensor soil network installed for the *Making the invisible visible* project in the Cambrian Mountains, the *Elenydd* plateau, known as the Ffridd (the upland fringe) 600m approx.

*When Earth Speaks: A Dirty Ensemble* is an innovative and interdisciplinary performance that integrates science, nature, technology, and art to explore interconnectedness, and the relationship between humans and the natural world. Human and non-human performers, such as the mountain itself, the soil, sensors, data, musicians, a Butoh dancer, a visual artist, and robotics will collectively generate a multidimensional and immersive experience for both performers and the audience.

The data stream, broadcast live into the theatre from the Cambrian mountains, Mid Wales offers a unique real-time interaction with the natural environment. The emergent, dynamic, and unpredictable performance will evolve in real-time as the performers respond to the landscape, each other, the fluctuations and patterns of the data, the changes and rhythms of the earth, the soil ecosystem; interrelating micro and macro-organisms, air, water, minerals, organic matter, complex food webs, nutrient cycles, and feedback loops etc.

*When Earth Speaks* explores intersemiotic translations between numerical code and non- verbal language; visual art, music, and dance to offer new modes of representation and interpretation of an environmental scientific study. It offers a timely critique on how we understand and manage the complex entangled relationship between nature, scientific data, and humans, and how each element of this triad influences and is being influenced by the other. It prompts reflection on the often reductive and homogenizing narratives inherent to data collection, analysis, and representation, and how it is shaped by power dynamics, biases, and inequalities.

The project serves as a catalyst for dialogue and action to ensure the sustainability and equity of both human and non-human entities within our entangled ecosystems.

More info on the project: https://www.mirandawhall.space/when-earth-speaks/

Funded by LADA, (Live Art Development Agency)

****